

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Iechyd Bro Ddyfi

Dyddiad y gweithgarwch: **9 Rhagfyr 2020**

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o lechyd Bro Ddyfi fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae lechyd Bro Ddyfi yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i boblogaeth Gogledd Powys (Machynlleth a'r cyffiniau). Mae'r practis yn darparu nifer o glinigau i reoli clefydau cronig, megis asthma a diabetes, ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau meddygol eraill, gan gynnwys gofal cynenedigol ac ôl-enedigol, mân lawdriniaethau, gofal ar gyfer mân anafiadau, brechlynnau i blant ac archwiliadau meddygol ar gyfer pobl iach.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis ar 9 Rhagfyr 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich

ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom holi'r practis am y ffordd mae'n gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael mynediad diogel a phriodol i wasanaethau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dyweddodd y practis wrthym y gwnaed penderfyniad cynnar i gau'r practis i'r cyhoedd er mwyn ceisio diogelu staff a chleifion. Fodd bynnag, parhaodd i roi pwyslais ar ddisgwyliadau'r cleifion a sicrhau bod gwasanaethau ar gael. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sicrhau dulliau cyfathrebu clir drwy arwyddion dwyieithog y tu allan i'r adeilad a gwefan newydd. Roedd cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion a oedd yn cofrestru ar gyfer gwasanaeth negeseuon testun y practis o ganlyniad i hynny.
- Gosod clychau drws ar ffurf fideo wrth fynedfa'r adeilad ac wrth y ffenestr dosbarthu meddyginiaeth er mwyn cadw rhywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb.
- Parhau i ddefnyddio blychau post er mwyn i gleifion ollwng eu ceisiadau am bresgripsiynau neu samplau iddynt.
- Darparu cysgodfan y tu allan i'r adeilad ar gyfer y cleifion yr oedd angen iddynt giwio neu a gyrhaeddodd ar droed.

Gwelsom fod y practis wedi treialu systemau a oedd wedi galluogi'r practis i gynnal ymgynghoriadau rhithwir ac o bell, a'u rhoi ar waith. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod hyn wedi gweithio'n dda ar gyfer sawl claf oherwydd y gallu i anfon a derbyn delweddau a negeseuon drwy'r cyfleuster. Ar gyfer cleifion hŷn ac agored i niwed, neu'r rheini â phroblemau sensitif, dywedodd y practis wrthym y gallai cleifion ffonio i siarad ag aelod o staff y practis o hyd, ac y byddai'n brysbennu ei alwad fel y bo'n briodol.

Gwnaethom edrych ar y broses roedd gan y practis ar waith ar gyfer brysbennu'r cleifion. Gwnaethom adolygu canllaw ddrafft ar gyfer ymdrin â galwadau, gydag unigolion enwebedig ac amserlen glir i ymateb iddynt. O ystyried mai dogfen ddrafft oedd hon, byddem yn cynghori'r practis i fabwysiadu protocol a pholisi brysbennu terfynol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar gyfer eu rôl ar lefel briodol.

O ran y cleifion hynny yr oedd angen iddynt gael apwyntiad y tu mewn i'r practis, dywedwyd wrthym fod nifer o fesurau eraill wedi cael eu cyflwyno er mwyn cefnogi diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod tymheredd pob ymwelydd a phob aelod o'r staff yn cael ei fesur wrth fynedfa'r adeilad a bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn cael ei ddarparu iddynt lle y bo'n berthnasol
- Sicrhau bod manylion Profi Olrhain Diogelu yn cael eu nodi drwy god QR¹, ar ffonau symudol neu â llaw, pan fyddant yn cyrraedd
- Rhoi system un ffordd ar waith gyda marciau llawr ac arwyddion priodol
- Cau ardaloedd aros a thoiledau (heblaw bod angen iddynt fod ar agor)
- Neilltuo dwy ystafell glinigol y gellir cael mynediad uniongyrchol iddynt o'r tu allan i'r practis, gan alluogi cleifion nad oes ganddynt COVID-19 i gael eu gweld heb fod angen iddynt fynd drwy'r prif adeilad.
- Neilltuo ardal allanol o'r practis a'i defnyddio fel 'hwb gwib' i gleifion a all fod yn dangos symptomau posibl o COVID-19 gael eu gweld yn ddiogel ac ar wahân i ardaloedd eraill o'r practis. Gwnaethom gadarnhau nad oedd unrhyw gyfarpar diangen yn yr ardal hon. Roedd apwyntiadau yn cael eu rheoli mewn ffordd a oedd yn galluogi clinigwyr i adael ar ddiwedd y dydd heb fod angen iddynt fynd i mewn i'r practis eto.

Dyweddod y practis wrthym fod nifer cyfyngedig o weithgareddau a gwasanaethau clinig, megis sgrinio serfigol, wedi cael eu gohirio o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r practis wedi dechrau darparu'r gwasanaethau hyn eto erbyn hyn. Gwelsom fod y practis wedi addasu'r ffordd roedd yn darparu clinigau eraill, megis rhoi presgripsiwn am B12 a gymerir drwy'r geg yn hytrach na thrwy bigiad yn y practis. Fodd bynnag, pwysleisiodd y practis nad oedd dull cyffredinol o ddarparu gofal, ac y gofynnir i'r cleifion ddod yn bersonol, yn unol â'u hanghenion clinigol.

Dyweddod y practis wrthym fod ganddynt gysylltiadau da â'r tîm nyrsys ardal, a odd wedi galluogi'r practis i gynnal cysylltiadau effeithiol â'r cleifion yn y gymuned. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y practis wedi cymryd rhan mewn galwad ddyddiol dan arweiniad meddyg teulu gyda'r tîm nyrsys ardal. Roedd arbenigwyr, megis gwasanaethau gofal lliniarol yn y cartref, yn cael eu gwahodd yn ôl yr angen i drafod anghenion cleifion yn y gymuned.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

¹ Cod QR Code yw fersiwn dau-ddimensiwn o'r cod bar, sy'n cynnwys patrymau picstel du a gwyn fel arfer

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiau rheoli heintiau, amserlenni glanhau a hyfforddiant staff. Gwnaethom hefyd gwestiynu'r lleoliad am y ffordd y mae'r newidiadau y mae wedi'u cyflwyno i wneud yn siŵr bod safonau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o PPE.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd y practis yn dilyn gweithdrefn Atal a Rheoli Heintiau a Pholisi Pandemig a gafodd eu hadolygu'n ddiweddar, ac roedd y ddau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y practis. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall y weithdrefn hon, gan gynnwys negeseuon e-bost rhwng staff yn nodi diweddariadau yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau a'r pandemig.

Dywedwyd wrthym fod PPE priodol ar gael i bob aelod o'r staff a bod y pwysau i gael PPE wedi lleddfu drwy gydol y pandemig. Roedd polisi'r practis yn amlinellu i'r staff sut i wisgo a diosg PPE yn gywir, a chadarnhaodd rheolwr y practis fod y partner meddyg teulu wedi cynnal sesiynau enghreifftiol i bob aelod o'r staff.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg diweddar ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd o fewn y practis, gan gynnwys ardaloedd clinigol, a oedd yn canolbwyntio ar gyfyngu ar drosglwyddo COVID-19. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y rheolwr y practis wedi cynnal rhywfaint o weithgarwch archwilio a rhannwyd hynny â'r holl staff. Fodd bynnag, cynghorir i'r practis ystyried mabwysiadu adnodd mwy ffurfiol wrth gynnal gweithgarwch archwilio er mwyn monitro a dangos dystiolaeth o ganlyniadau yn effeithiol.

Gwelsom gadarnhad bod sawl aelod o'r staff wedi cyflawni hyfforddiant atal a rheoli heintiau, gan gynnwys meddygon teulu, y staff nyrsio a'r staff glanhau, a chadarnhaodd rheolwr y practis fod hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn orfodol i'r staff. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gael i ni eu gweld ar unwaith.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod glanhawr penodol wedi'i benodi gan y practis, a'i fod wedi cyflawni hyfforddiant a ddarperir gan y bwrdd iechyd yn benodol ar gyfer ei rôl. Gwelsom fod amserlenni glanhau rheolaidd wedi cael eu cadw, gan gynnwys mwy o lanhau drwy gydol y pandemig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dylai'r practis lunio matrices sgiliau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff, er mwyn sicrhau ei fod yn goruchwyllo hyfforddiant atal a rheoli heintiau (a meysydd eraill) yn ddigonol ym mhob rhan o'r practis.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC adolygu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau

pandemig yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gwestiynau'r lleoliad am y ffordd mae wedi addasu ei wasanaeth yn sgil pandemig COVID-19, sut mae'n rhyngweithio â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a'i brosesau rheoli risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd y practis yn ffurfio rhan o Glwstwr Gofal Sylfaenol Gogledd Powys ², lle gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio cefnogol gan y clwstwr. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y clwstwr yn cyfarfod o leiaf bob mis, ond ei fod wedi cyfarfod yn amlach drwy gydol y pandemig i gefnogi staff a gofal cleifion.

Er mwyn cefnogi diogelwch a llesiant aelodau unigol o'r staff, gwelsom fod y staff wedi cwblhau Aseiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan er mwyn asesu eu hamgylchiadau personol mewn perthynas â'r pandemig. Roedd y practis hefyd wedi cynnal aseiad risg ychwanegol o'r amgylchedd gwaith i gefnogi'r staff a'r tîm rheoli ymhellach.

Dywedwyd wrthym fod nifer o'r staff wedi bod yn absennol drwy gydol y pandemig o ganlyniad i faterion salwch neu ofal plant. Fodd bynnag, gwelsom fod pob aelod o'r staff bellach wedi dychwelyd i'r gwaith a bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r staff weithio o gartref lle y bo'n bosibl.

Dywedwyd yn glir wrthym fod y staff yn dechrau teimlo effeithiau seicolegol y pandemig, megis blinder. Dywedwyd wrthym fod y galw cynyddol am y gwasanaethau a ddarperir gan y practis a materion eraill, megis anhawster wrth atgyfeirio i amrywiol systemau gofal eilaidd, wedi ychwanegu at hyn. Dylai'r practis barhau i ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod llesiant y staff yn cael ei gefnogi'n llawn.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

² Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Iechyd Bro Ddyfi

Dyddiad y gweithgarwch: 9 Rhagfyr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r practis lunio matrices sgiliau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff, er mwyn sicrhau ei fod yn goruchwylio hyfforddiant atal a rheoli heintiau (a meysydd eraill) yn ddigonol ym mhob rhan o'r practis.	7.1 Safonau Iechyd a Gofal	Wedi nodi a chaiff ei roi ar waith	LC - PM	Erbyn diwedd mis Chwefror 21
2					
3					
4					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Lucy Cockram

Dyddiad: 16 Rhagfyr 2020